

Pecyn Swydd

# CYNHYRCHYDD

Cyflog cychwynnol: £31,000 y flwyddyn
Amser llawn (37.5 awr yr wythnos)
Parhaol

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 06 MEDI 2026
(canol nos)

Hijinx

# CROESO

Diolch yn fawr i chi am eich diddordeb yn Hijinx ac yn ein swydd Cynhyrchydd. Rydym yn wirioneddol falch eich bod chi yma.

Mae'r pecyn hwn yn rhoi ychydig mwy o gefndir pwy ydyn ni, y swydd ei hun, a sut i ymgeisio.

Yn Hijinx, rydym yn angerddol am y gwaith yr ydym yn ei greu a'r bobl yr ydym yn ei greu gyda nhw. Dros y blynyddoedd rydym wedi llunio ymdeimlad cryf o gymuned a diwylliant sy'n gynnes, cefnogol, uchelgeisiol ac, yn bwysig, yn llawen. Credwn bod pobl yn gwneud eu gwaith gorau pan fyddant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gallu dwyn eu hunain yn llwyr i'r hyn y maent yn ei wneud – ac rydym yn gobeithio y byddwch yn teimlo'r ysbryd hwnnw trwy gydol y broses hon.

Os hoffech chi sgwrsio am unrhyw beth cyn ymgeisio, neu os oes rhywbeth y gallwn ni ei wneud i'ch cefnogi chi neu wneud y broses recriwtio yn fwy hygyrch, cysylltwch trwy jobs@hijinx.org.uk

Diolch eto am roi amser i ystyried ymuno â Hijinx. Rydym yn gwirioneddol edrych ymlaen at ddysgu mwy amdanoch chi, eich profiad a'r syniadau, sgiliau ac egni y gallech chi eu dwyn i bennod nesaf ein gwaith.

E.Wrightbrook

ELLIS WRIGHTBROOK
Cynhyrchydd Gweithredol



Hijinx

EIN GWELEDIGAETH
Byd lle mae'r celfyddydau a chymdeithas yn gwbl gynhwysol i bobl ag Anableddau Dysgu a/neu Awtistig

EIN CENHADAETH
Arloesi, cynhyrchu a hyrwyddo cyfleoedd proffesiynol a chyfranogol yn y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol ar gyfer pobl ag Anableddau Dysgu a/neu Awtistig

AM HIJINX
Mae Hijinx yn creu theatr wefreiddiol a gwrthdroadol sy'n cael canmoliaeth uchel ledled y DU, Ewrop ac yn rhyngwladol, lle mae artistiaid ag anableddau dysgu ac/neu awtistiaeth yn cael eu cynnwys bob cam o'r ffordd wrth lunio a pherfformio eu storïau

Mae Academïau Hijinx yn darparu'r unig gwrs hyfforddiant perfformio proffesiynol yng Nghymru ar gyfer actorion ag anableddau dysgu ac/neu awtistiaeth ac rydym yn cynnig cyfleoedd na fyddwch yn dod o hyd iddynt yn unman arall. Rydym yn cynnal pum Academi ledled Cymru sydd â thros 60 o actorion dan hyfforddiant.

Ochr yn ochr â hyn, mae gennym raglen ffilm sy'n tyfu ac arlwy cymunedol ac allgymorth deinamig (PAWB). Trwy Actorion Hijinx, rydym yn hyrwyddo ein hactorion i'r celfyddydau a diwydiannau creadigol ehangach, yn ogystal â chynnig cyflogaeth yn uniongyrchol yn ein hyfforddiant cyfathrebu arobryn.

Mae Hijinx yn cydnabod, parchu a gwerthfawrogi gwahaniaethau unigol. Rydym wedi ymrwymo i les ein staff, i fod yn gyflogwr Cyfle Cyfartal ac i ddenu talent amrywiol o rannau o'r gymuned nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn y sector diwylliant ar hyn o bryd i'n helpu i ddatblygu gweithlu mwy amrywiol.


## RYDYM YN CREU NEWID TRWY FYW AC ANADLU EIN NODAU SEFYDLIADOL...



Cynyddu cynrychiolaeth rhai ag anabledd dysgu/awtistiaeth ar y llwyfan a'r sgrin.



Darparu, pledio o blaid a hwyluso cyflogaeth broffesiynol i artistiaid proffesiynol creadigol ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth.



Cynyddu hyder, hapusrwydd ac annibyniaeth.





Trawsnewid y sector i weithio'n fwy cynhwysol.

Cynyddu mynediad at y celfyddydau perfformio i gynulleidfaoedd a chymunedau yng Nghymru.



"Mae pobl ag anableddau yno i ddangos i bobl ein bod ni'n ddynol ac rydyn ni eisiau iddyn nhw gael eu diddanu gan yr hyn rydyn ni'n ei wneud."

# DISGRIFIAD SWYDD.
# CYNHYRCHYDD






Mae’r **Cynhyrchydd** yn chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu, cyflwyno a sicrhau cynaliadwyedd Rhaglen Greadigol Hijinx, gan weithio’n glos gyda’r Cynhyrchydd Gweithredol, y Cyfarwyddwr Artistig/Cyd-Brif Swyddog Gweithredol, a’r Cyfarwyddwr Cysylltiol.

Mae’r swydd yn gyfrifol am gynhyrchu ein rhaglen **Ymgysylltu Creadigol** a chyfleoedd **Datblygu Artistiaid** ochr yn ochr â chefnogi cynyrchiadau theatr proffesiynol, gweithgaredd teithio a digwyddiadau mawr gan gynnwys **Gŵyl Undod Hijinx**.

Trwy weithio’n gydweithredol ar draws y sefydliad, mae’r Cynhyrchydd yn creu’r amodau cynhwysol lle mae artistiaid, gweithwyr llawrydd, cyfranogwyr a chydweithwyr yn teimlo bod croeso iddynt, eu bod yn cael eu cefnogi a’u harfogi i wneud eu gwaith gorau. Maent yn cyfuno sgiliau **rheoli prosiect** rhagorol gydag angerdd am **theatr cynhwysol**, gan lunio perthynas gref a sicrhau bod gwaith Hijinx yn cyrraedd cynulleidfaoedd a chymunedau yn lleol, yn genedlaethol a rhyngwladol.

Mae’r swydd yn gofyn am gydbwysedd rhwng chwilfrydedd creadigol, arbenigedd cynhyrchu ymarferol a llunio perthnasoedd. Bydd deiliad y swydd yn helpu i ddynodi cyfleoedd ar gyfer gwaith Hijinx, datblygu partneriaethau, rheoli prosiectau o’u creu hyd at eu darparu, a chyfrannu at dwf parhaus a phroffil y sefydliad.

Diverse Cymru Black, Asian and Minority Ethnic
Cultural Competence

attitude is everything

itc 2025-2026 Fair Work Approved

ZERO RACISM WALES

disability confident EMPLOYER



# CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL.

**Cyffredinol**

- Gweithio'n agos gyda'r Cynhyrchydd Gweithredol, y Cyfarwyddwr Cysylltiol, y Cyfarwyddwr Artistig/Cyd Brif Swyddog Gweithredol a'r tîm cynhyrchu ehangach i ddarparu rhaglen greadigol Hijinx.
- Cefnogi creu amgylcheddau cynhwysol, croesawus ac uchelgeisiol i artistiaid, cyfranogwyr a thimau llawrydd Hijinx.
- Cyfrannu at gynllunio a datblygu llinell gynhyrchu greadigol Hijinx, gan ddynodi cyfleoedd ar gyfer gwaith, partneriaethau a chynulleidfaoedd newydd.
- Gweithio yn gydweithredol ar draws adrannau i sicrhau bod prosiectau'n cael eu cyflawni'n effeithiol ac yn adlewyrchu gwerthoedd Hijinx yn ymwneud â chynhwysiant, mynediad a chynaliadwyedd.

**Rhaglen Ymgysylltu Greadigol**

- Arwain ar gynhyrchu a rheoli prosiect gweithgareddau Ymgysylltu Creadigol Hijinx, gan gynnwys:
  - Theatr Pobl Ifanc
  - Theatr Gymunedol Oedolion (Odyssey)
  - Band mewnol cynhwysol Hijinx
  - Gweithgareddau allgymorth
- Gweithio'n glos gyda'r Cyfarwyddwr Cysylltiol i sicrhau bod prosiectau'n cael eu cynllunio'n dda, yn cael digon o adnoddau a'u cyflwyno i safon uchel.
- Bod yn bresenoldeb gweladwy ac yn gyswllt cydnabyddedig ar gyfer y prosiectau Ymgysylltu Creadigol uchod, gan feithrin perthynas waith gadarnhaol gyda'r artistiaid dan sylw.
- Hwyluso 'Cyswllt' grŵp adborth cymheiriaid o gyfranogwyr o bob rhan o'r rhaglen Ymgysylltu Creadigol. Cefnogi sgyrsiau ystyrlon yn ymwneud â phrofiadau, cyfleoedd a heriau creadigol, gan sicrhau bod lleisiau artistiaid yn helpu i siapio datblygiad ein gwaith. Bydd dealltwriaeth, gwersi a ddysgwyd a themâu sy'n dod i'r golwg o'r panel yn bwydo i'r sgyrsiau sefydliadol ehangach, gan gynnwys yr uwch arweinwyr a thrafodaethau ar lefel y Bwrdd, gan sicrhau bod safbwyntiau artistiaid yn parhau i siapio ein gwaith a'r ffordd yr ydym yn gwneud penderfyniadau.
- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Cysylltiol i yrru'r recriwtio ar gyfer prosiectau Ymgysylltu Creadigol, trwy gyswllt gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol, sefydliadau anabledd dysgu a rhwydweithiau a phrosiectau o gwmpas Cymru i sicrhau cyfathrebu da ac i sicrhau'r cyfleoedd gorau i gyfranogwyr gael mynediad at weithgareddau Hijinx.
- Monitro cyfranogiad, deilliannau ac effaith, gan sicrhau bod yr hyn a ddysgir yn cael ei gofnodi ac yn cyfrannu at ddatblygiad yn y dyfodol.
- Sicrhau bod cyfranogwyr yn cael profiad cadarnhaol gyda chefnogaeth trwy gydol eu hymwneud â Hijinx.



# CYFRIFOLDEBAU.

## Rhaglen Theatr a Theithio

- Cefnogi darparu rhaglen theatr broffesiynol Hijinx, gan gynnwys theatr teithiol (celfyddydau traddodiadol ac awyr agored), comisiynau a chyweithiau/cyd-gynyrchiadau.
- Meithrin perthynas gyda lleoliadau, gwyliau a phartneriaid i gefnogi cyfleoedd teithio yn genedlaethol a rhyngwladol.
- Ymchwilio i gyfleoedd a'u datblygu i arddangos gwaith Hijinx i gynulleidfaoedd a phartneriaid newydd.
- Cyfrifoldebau archebu teithiau, o'r cyswllt cyntaf i drafod a rheoli cytundebau lleoliadau, trefniadau cyd-gynhyrchu a chontractau llawrydd.
- Cydlynu a threfnu amserlenni teithio, amserlenni prosiect a gofynion cyflawni.
- Gweithio'n glos gyda'r Cynhyrchydd Gweithredol, y Rheolwr Cynhyrchiad, yr Arweinydd Hygyrchedd a'r tîm creadigol ehangach i sicrhau bod cynyrchiadau yn cael eu cyflawni'n effeithiol.

## Gŵyl Undod a Digwyddiadau Mawr Eraill

- Cefnogi cynllunio a chyflawni Gŵyl Undod Hijinx a digwyddiadau mawr eraill y sefydliad.
- Trefnu amserlenni prosiectau, cysylltu ag artistiaid, contractau, logisteg a chyflawni.
- Cefnogi datblygu perthnasoedd gydag artistiaid, cwmnïau, lleoliadau a rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig â digwyddiadau mawr.

## Rheolaeth a Chydweithio

- Rheolwr llinell ar y Cynhyrchydd Cynorthwyol, gan gefnogi eu datblygiad, cynllunio llwyth gwaith a llesiant.
- Cynrychioli Hijinx mewn digwyddiadau i'r sector, gwyliau, arddangosfeydd a chyfleoedd rhwydweithio.
- Llunio a chynnal cysylltiadau cryf gydag artistiaid, Actorion Hijinx (a'u rhwydweithiau cefnogi), gweithwyr llawrydd, lleoliadau, partneriaid a rhanddeiliaid.
- Gweithio'n glos gyda'r Rheolwr Marchnata a Datblygu Cynulleidfa i gefnogi hyrwyddo a chyfathrebu gweithgareddau creadigol, gan sicrhau bod prosiectau yn cael eu gosod, rhannu a'u dathlu yn effeithiol gyda chynulleidfaoedd, partneriaid a rhanddeiliaid. Cyfrannu at lunio ymwybyddiaeth ehangach a dealltwriaeth o raglen greadigol Hijinx, ei artistiaid ac effaith ein gwaith.

## Cyllid a Chodi Arian

- Rheoli cyllidebau prosiectau o fewn paramedrau y cytunwyd arnynt, gan gynnwys monitro gwariant, ail lunio rhagolygon a rhoi adroddiadau.
- Gweithio gyda'r Cynhyrchydd Gweithredol i sicrhau bod prosiectau yn cael eu cyflawni o fewn yr adnoddau sydd ar gael ac i safonau uchel.

# CYFRIFOLDEBAU.

## Cyllid a Chodi Arian

- Gosod a monitro cyllidebau prosiectau Ymgysylltu Creadigol, ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Cysylltiol.
- Pan fydd yn addas, cefnogi'r Rheolwr Codi Arian trwy gyfrannu at geisiadau cyllido, adroddiadau monitro a chasglu tystiolaeth am brosiectau.
- Dynodi cyfleoedd posibl ar gyfer cyllid prosiect a datblygu partneriaethau.

## Diogelu, Hygyrchedd a Chynhwysiant

- Hyrwyddo ac ymwreiddio arferion diogelu, hygyrchedd a chynhwysiant Hijinx ar draws yr holl brosiectau.
- Cofnodi ac uwchgyfeirio pryderon diogelu neu lesiant i'r Swyddogion/Arweinyddion Diogelu priodol.
- Sicrhau bod anghenion hygyrchedd artistiaid, cyfranogwyr a thimau llawrydd yn cael eu dynodi, eu deall a'u cefnogi.
- Monitro gofynion hyfforddiant ar gyfer gweithwyr parhaol a llawrydd a sicrhau bod yr holl hyfforddiant yn gyfredol ac yn cael ei gofnodi'n gywir (ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Datblygu Artistiaid a'r Cynhyrchydd Gweithredol).
- Sicrhau bod gwiriadau DBS yn gyfredol i weithwyr llawrydd sy'n gysylltiedig â gweithgareddau Creadigol ac Ymgysylltu Creadigol, gyda chefnogaeth Gweinyddwr Hijinx.
- Gweithio yn unol â pholisïau Hijinx o ran cydraddoldeb, amrywiaeth, cynaliadwyedd, yr iaith Gymraeg a hygyrchedd.

## Arall

Mae gan Hijinx ddull cydweithredol o weithio lle mae'r staff yn helpu a chefnogi ei gilydd yn unrhyw ffordd angenrheidiol i sicrhau bod y cwmni'n cael ei redeg a bod y gwaith yn cael ei gyflawni yn llyfn.

- Cymryd rhan mewn hyfforddiant yn ôl y gofyn.
- Cefnogi digwyddiadau a gweithgareddau'r sefydliad yn ôl y gofyn.
- Teithio yn lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn ôl y gofyn.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill rhesymol yn ôl y gofyn.



# Manyleb Person

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Sgiliau a Gallu** | | |
| Y gallu i ddod â syniadau creadigol yn fyw trwy gynllunio gofalus, datrys problemau a darparu ymarferol. | X | |
| Sgiliau rheoli prosiect cryf, gyda'r gallu i gael cydbwysedd rhwng uchelgais artistig, anghenion mynediad, cyllidebau a llinellau amser. | X | |
| Cyfathrebwr clir ac ystyrlon, yn gallu rhannu gwybodaeth mewn ffyrdd sy'n hygyrch, cynhwysol a defnyddiol i eraill. | X | |
| Y gallu i greu amgylcheddau trefnus, cefnogol lle gall artistiaid, cyfranogwyr a gweithwyr llawrydd ffynnu. | X | |
| Y gallu i reoli nifer o flaenoriaethau gan gadw'n dawel, hyblyg a chanolbwyntio ar ddatrysiadau. | X | |
| Medrus wrth ddefnyddio cynhyrchion Microsoft Office 365, gan gynnwys Word, Excel a systemau/offer rheoli prosiect eraill. | | X |
| Hyderus yn trafod contractau, cytundebau neu drefniadau partneriaeth. | | X |
| **Profiad** | | |
| Profiad yn cynhyrchu neu drefnu prosiectau creadigol o'r syniadau cynnar hyd at eu cyflwyno. | X | |
| Profiad o weithio mewn amgylcheddau creadigol proffesiynol a chyfranogol. | X | |
| Profiad yn rheoli darparu gweithgaredd teithiol, gan gynnwys amserlenni, cyllidebau, gweinyddu a gwerthuso. | X | |
| Profiad o gyfrannu at geisiadau am gyllid, rhoi adroddiadau, neu gyflwyno effaith prosiect. | X | |
| Hanes o ddynodi a meithrin partneriaethau a chyfleoedd cenedlaethol neu ryngwladol. | | X |
| Profiad yn cefnogi, mentora neu reoli llinell cydweithwyr a thimau creadigol. | | X |
| Profiad yn cydweithio gydag eraill; yn benodol wrth ddarparu gŵyl ar raddfa fawr, sioeau, neu ddigwyddiad mawr arall. | | X |

# Manyleb Person (Yn parhau)

| | Essential | Desirable |
|---|---|---|
| **Gwybodaeth** | | |
| Gwerthfawrogiad o werth ac effaith perfformiad cyfranogol a dan arweiniad y gymuned. | X | |
| Gwybodaeth am y theatr a'r sector celfyddydau perfformio (gan gynnwys cyrff cyllido) yng Nghymru a/neu'r Deyrnas Unedig yn ehangach. | X | |
| Dealltwriaeth o ddulliau cynhwysol a hygyrch o greu theatr a pherfformiadau. | | X |
| Ymwybyddiaeth o ddulliau cynaliadwy o gynhyrchu a swyddogaeth Llyfr Gwyrdd y Theatr. | | X |
| Yn dwyn rhwydwaith o gysylltiadau creadigol y gall ddibynnu arnyn nhw i gefnogi cynlluniau ar y cyd a chyfleoedd yn y dyfodol. | | X |
| Gwybodaeth am y sector gelf i bob ag anabledd. | | X |
| **Agwedd** | | |
| Angerddol am theatr cynhwysol ac yn credu ym mhotensial creadigol pawb. | X | |
| Cydweithredol, hael ac ymroddedig i rannu cyfrifoldeb a dathlu llwyddiannau pobl eraill. | X | |
| Parodrwydd i ddatblygu sgiliau Cymraeg ac ymgysylltu â diwylliant Cymru. | X | |
| Parodrwydd i ddatblyRhywun sy'n barod i ddechrau pethau ei hun ac yn mwynhau cymryd meddiant o brosiectau ond sy'n cydnabod pryd i gydweithio a/neu i chwilio am gefnogaeth. gu sgiliau Cymraeg ac ymgysylltu â diwylliant Cymru. | X | |
| Dull hyblyg a pharod i addasu, a gweithio ar fin nos a phenwythnosau yn achlysurol yn ôl y gofyn. | X | |

# TELERAU.

- **Rheolwr Llinell:** Cynhyrchydd Gweithredol
- **Yn gyfrifol am:** Cynhyrchydd Cynorthwyol
- **Contract:** Swydd barhaol (6 mis o brawf)
- **Oriau:Llawn amser (37.5 awr yr wythnos).**
    - Y gallu a'r parodrwydd i weithio oriau hyblyg, yn ôl gofynion y swydd, yn cynnwys rhywfaint o waith ar fin nos a phenwythnosau. Rhoddir amser o'r gwaith in lieu.
- **Yn gweithio o:** Caerdydd (gyda theithio lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn ôl gofynion y swydd)
- **Cyflog/Buddion:** Graddfa C, cyflog cychwynnol SCP7: £31,000 y flwyddyn
- Mae Hijinx yn cynnig cynllun pensiwn gweithle trwy Nest, cynllun Beicio i'r Gwaith a Rhaglen Cynorthwyo Gweithwyr.
- Yn ychwanegol, rydym yn cynnig cefnogaeth i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg. Mae Hijinx wedi ymrwymo i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus a bydd yn gweithio'n glos gyda deiliad y swydd i sicrhau bod ei anghenion hyfforddiant yn cael eu bodloni.
- **Gwyliau:** 30 diwrnod y flwyddyn a gwyliau banc statudol



**NODIADAU CYFFREDINOL**
Mae Hijinx yn cydnabod, parchu a gwerthfawrogi gwahaniaethau unigol. Rydym wedi ymrwymo i les ein staff, i fod yn gyflogwr cyfle cyfartal, ac i ddenu talent amrywiol o rannau o'r gymuned sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector diwylliant ar hyn o bryd i'n helpu i ddatblygu gweithlu mwy amrywiol.

Mae tîm Hijinx yn fach, ond yn ystwyth, ac yn cyflawni'n uwch o lawer na'r disgwyl, gyda chymorth criw rhyfeddol o weithwyr ar eu liwt eu hunain a gwirfoddolwyr.

- Rydym yn datblygu ac annog ein gweithwyr i dyfu yn eu rolau a bod y gorau y gallant fod.
- Anelwn at ymagwedd gydweithredol at waith lle mae aelodau staff yn helpu a chefnogi ei gilydd mewn unrhyw ffordd sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y cwmni'n cael ei gynnal yn ddidrafferth a bod y gwaith yn cael ei gyflawni.
- Mae'r Pecyn Swydd hwn yn ddangosol yn hytrach na chynhwysfawr, a bydd angen agwedd hyblyg at rôl a thasgau'r swydd.
- Yn ogystal â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a restrir ac yn unol â'n hymagwedd gydweithredol, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd wneud unrhyw waith cyffredinol arall fel sy'n briodol i'w rôl ar gais ei reolwr llinell.
- Diogelu - Mae cynnig cyflogaeth yn amodol ar wiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).
- Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu dogfennau sy'n dangos ei hawl i fyw a gweithio yn y Deyrnas Unedig.



# I WNEUD CAIS

Os ydych yn credu eich bod yn addas i'r rôl ac yr hoffech wneud cais, anfonwch y canlynol atom:

1. **CV cyfredol** – yn amlygu unrhyw brofiad, sgiliau a chymwysterau perthnasol.
2. **Llythyr eglurhaol** heb fod yn hirach na dwy dudalen – yn nodi pam rydych chi'n ymddiddori yn y rôl a sut mae eich profiad yn cyd-fynd â manyleb y person.
3. **Ffurflen Monitro Amrywiaeth** wedi'i chwblhau yma – cadarnhewch yn eich llythyr eglurhaol eich bod wedi cwblhau'r ffurflen hon.

Rydym yn gwybod y gall gwneud cais am swyddi weithiau deimlo'n llethol – yn enwedig os nad yw'r prosesau safonol bob amser yn gweithio i chi.

Os nad ysgrifennu yw eich ffordd ddewisol o gyfathrebu, gallwch anfon ffeil fideo neu sain atom (hyd at 5 munud) yn lle llythyr eglurhaol ysgrifenedig.

Dylid anfon ceisiadau at jobs@hijinx.org.uk erbyn hanner nos ar 6 Medi 2026.

## AMSERLEN RECRIWTIO

**06 Medi:** Ceisiadau yn cau am hanner nos

**w/c 07 Medi:** Ceisiadau yn cael eu sgrinio a'u gwneud yn ddienw

**w/c 14 Medi:** Llunio rhestr fer

**22 Medi:** Bydd pob ymgeisydd wedi cael penderfyniad

**02 Hyd:** Cyfweliadau

**05 Hyd:** Cyfweliadau'r Ail Rownd (os bydd angen)

**07 Hyd:** Penderfyniad a rhoi cynnig

## HYGYRCHEDD A CHYNHWYSIANT

Mae Hijinx yn cydnabod, parchu a gwerthfawrogi gwahaniaethau unigolion. Rydym wedi ymrwymo i les ein staff, i fod yn gyflogwr Cyfle Cyfartal a Hyderus am Anabledd, a denu talent amrywiol o rannau o'r gymuned nad ydynt wedi eu cynrychioli'n ddigonol yn y sector diwylliant.

Fel rhan o'n hymrwymiad i gynyddu amrywiaeth ein gweithlu yn Hijinx, rydym yn darparu Cynllun Cyfweliad Gwarantedig i ymgeiswyr nad oes digon o gynrychiolaeth ohonynt ar ein tîm. Gallwch gael eich ystyried dan y Cynllun Cyfweliad Gwarantedig os ydych yn dioddef hiliaeth, yn Fyddar, anabl, yn berson ag anabledd dysgu, niwrowahanol, â chyflwr corfforol neu iechyd meddwl tymor hir, yn LHDTC+ neu yn uniaethu fel rhywun dosbarth gweithiol. Ar yr amod eich bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, sy'n cael eu nodi yn y fanyleb person, byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweliad. Dim ond gyda thîm adnoddau dynol Hijinx a'r rheolwr sy'n recriwtio y bydd eich cais am gyfweliad gwarantedig yn cael ei rannu.
**Os hoffech chi gael eich ystyried dan y cynllun, dynodwch hyn yn glir yn eich cais.**

**Pwysig:** dan rai amgylchiadau recriwtio fel amseroedd prysur, efallai y bydd raid i ni gyfyngu'r nifer o gyfweliadau a gynigir. Bydd hyn yn cynnwys y nifer o gyfweliadau a gynigir trwy'r Cynllun Cyfweliad Gwarantedig. Yn y sefyllfa hon, bydd Hijinx yn sicrhau bod nifer deg a chymesur o ymgeiswyr o gymunedau nad ydynt yn cael cynrychiolaeth ddigonol (sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd hon) yn cael cynnig cyfweliad.